Gorffennaf 2024

Trosolwg o benderfyniad drafft PR24 Hafren Dyfrdwy

Ofwat

Trosolwg o benderfyniad drafft PR24 Hafren Dyfrdwy

Cyflwyniad

Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr a dŵr gwastraff i sicrhau'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw trwy gynnal adolygiad prisiau. Trwy adolygiad prisiau, rydym yn galluogi'r cwmnïau yn y sector i wneud y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni eu rhwymedigaethau a sicrhau canlyniadau gwych i gwsmeriaid a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad prisiau hwn, sy'n cwmpasu 2025-30, yn gweld y buddsoddiad mwyaf yn y sector mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd ers preifateiddio. Mae llawer o'r buddsoddiad hwn yn angenrheidiol i fodloni gofynion amgylcheddol ac ansawdd.

Yng Nghymru, mae uchelgais traws-sector a rennir y bydd yr adolygiad prisiau hwn yn hyrwyddo ffocws cynyddol ar wytnwch hirdymor, mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol, a darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel i gwsmeriaid a chymunedau. Mae ysgogi ymrwymiadau datgarboneiddio i gyrraedd sero net, a chymell effeithlonrwydd ac arloesedd, hefyd yn flaenoriaethau strategol ar gyfer yr adolygiad prisiau.

I adlewyrchu'r fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru sy'n annog 'ffordd o weithio' cydweithredol, fe wnaethom gyflwyno dull cydweithredol i Gymru ar gyfer PR24 i helpu i nodi'r canlyniadau lefel uchel i'w cyflawni yng Nghymru a sut y gellid cyflawni'r rhain. Rhoddwyd hyn ar waith drwy Fforwm PR24 Cymru, lle'r oedd cwmnïau dŵr yng Nghymru yn gallu deall y blaenoriaethau allweddol sy'n datblygu ar gyfer Cymru i lywio eu strategaethau cyflawni a chynlluniau busnes hirdymor PR24.

Daeth trafodaethau'r Fforwm i ben gyda chyhoeddi awgrymiadau strategol i'r cwmnïau ym mis Awst 2023. Mae awgrymiadau'r Fforwm hefyd wedi llywio ein penderfyniadau PR24. Lle'r ydym yn ystyried bod angen hynny, rydym wedi mynd ymhellach i ddiogelu cwsmeriaid a'r amgylchedd drwy gymhwyso targedau mwy ymestynnol i'r cwmnïau na'r rheini sydd yn awgrymiadau Fforwm PR24 Cymru.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Dŵr Hafren Dyfrdwy ei gynllun busnes ar gyfer 2025-30. Roedd cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gallu herio a siapio'r cynllun hwn, gan gynnwys drwy'r sesiynau agored 'Eich Dŵr, Eich Llais' a gynhaliwyd yn ystod haf a hydref 2023.

Ers hynny, rydym wedi craffu ar gostau arfaethedig y cwmni tra'n rhoi ystyriaeth i awgrymiadau'r Fforwm. Rydym wedi gwneud yn siŵr nad yw cwsmeriaid yn talu mwy nag sy'n angenrheidiol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ac na chodir tâl arnynt ddwywaith am waith a ddylai fod wedi'i gyflawni eisoes. Rydym hefyd wedi alinio buddiannau buddsoddwyr y cwmni â chwsmeriaid, drwy sicrhau bod yr enillion y mae buddsoddwyr yn eu hennill yn adlewyrchu'r perfformiad a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mae ein penderfyniadau drafft yn golygu y bydd Hafren Dyfrdwy mewn sefyllfa i gyflawni'r buddsoddiad sydd ei angen. Rydym wedi cymell y cwmni i fynd y tu hwnt i'w dargedau perfformiad er mwyn rhoi canlyniadau gwell fyth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Byddwn yn dal y cwmni i gyfrif fel ei fod yn cyflawni gwelliannau gwirioneddol i'r amgylchedd ac i gwsmeriaid. Gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI), byddwn yn monitro ei gynnydd o ran cyflawni ei rwymedigaethau, ac ni fyddwn yn oedi cyn gweithredu os na fydd yn gwneud hynny.

Gall cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill nawr roi eu barn ar ein penderfyniadau drafft, drwy ymateb i'n hymgynghoriad. Rydym yn gwahodd ymatebion erbyn canol dydd ar 28 Awst 2024. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2024, gan roi'r ystyriaeth i'r adborth a dderbynnir.

Rydym wedi nodi ein penderfyniadau ar gyfer pob cwmni dŵr yng Nghymru a Lloegr yn ein crynodeb sector.

Crynodeb



Y gwelliannau rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd

Ar hyn o bryd, cyfartalog yw perfformiad Hafren Dyfrdwy o'i gymharu â chwmnïau eraill yn y sector, gan gyrraedd 50% o'r targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.[1] Yn ei gynllun busnes, cynigiodd Hafren Dyfrdwy welliannau perfformiad gweddol uchelgeisiol, gan gynnwys ymestyn ei berfformiad o wariant o ddydd i ddydd. Byddwn yn ei ddal i gyfrif i ddarparu lefel gwasanaeth sylweddol well i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Gwella'r amgylchedd	Diogelu ein cyflenwad dŵr
Yn ystod 2025-30, disgwylir i Hafren Dyfrdwy gyflawni gostyngiad gwerth 35% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a gostyngiad yn y defnydd o orlifoedd storm. Bydd y cwmni'n buddsoddi £7 miliwn i leihau llygredd maetholion.	Yn ystod 2025-30, disgwylir i Hafren Dyfrdwy gyflawni gostyngiad gwerth 10% mewn gollyngiadau. Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo fuddsoddi £2 filiwn mewn hybu ei adnoddau dŵr, gan gynnwys £1 miliwn mewn rhaglen mesuryddion clyfar.
Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid	**Cynnal iechyd a gwytnwch asedau**
Yn ystod 2025-30, bydd Hafren Dyfrdwy yn buddsoddi £2 filiwn i wella ansawdd dŵr yfed. Mae disgwyl iddo hefyd leihau llifogydd carthffosydd mewnol gan 15% o gymharu â pherfformiad cyfartalog yn 2020-23. Dylai leihau ei gysylltiadau gan gwsmeriaid ynglŷn ag ansawdd dŵr gan 7%.	Yn ystod 2025-30, bydd disgwyl i Hafren Dyfrdwy fuddsoddi £5 miliwn i wella gwytnwch ei seilwaith. Disgwylir iddo leihau carthffosydd yn cwympo gan 13% a lleihau'r angen i atgyweirio pibellau'n byrstio ar ei brif gyflenwad gan 6%.

Oni nodir yn wahanol, mae ffigurau % yn cynrychioli newidiadau o'r targed a osodwyd gennym ar gyfer 2024-25 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30.

Yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau perfformiad a'i rwymedigaethau cyfreithiol, mae ein penderfyniad drafft yn rhoi lwfans gwariant o **£226 miliwn i Hafren Dyfrdwy dros y cyfnod 2025-30.** Mae hyn **£15 miliwn** yn fwy na'r hyn a ddarparwyd i'r cwmni yn y cyfnod adolygiad prisiau presennol (2020-25). Rydym o'r farn y gall Hafren Dyfrdwy gyflawni ei ymrwymiad perfformiad a'i rwymedigaethau am gost is nag y gofynnodd, ac mae ein lwfansau arfaethedig **14%** yn is na chynllun y cwmni.

[1] Ofwat 'Adroddiad perfformiad cwmnïau dŵr 2022-23' Medi 2023

Rydym yn nodi'r gwelliannau a'r buddsoddiadau hyn mewn adrannau diweddarach isod.

Beth mae ein penderfyniad drafft ei olygu i filiau cwsmeriaid

Mae costau'r buddsoddiad y mae Hafren Dyfrdwy yn ei wneud yn cael eu hadennill drwy filiau cwsmeriaid dros yr hirdymor (gan ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod 2025-30). Ein nod yw sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei adennill dros gyfnod o amser sy'n cyd-fynd yn fras â'r buddion y mae cwsmeriaid yn eu cael o'r buddsoddiad hwnnw. Oherwydd ein bod yn gwasgaru'r broses o adennill y costau hyn dros yr hirdymor, rhaid i gwmnïau yn gyntaf ariannu eu gwariant arfaethedig drwy ddenu buddsoddiad gan ddarparwyr dyled ac ecwiti.

Yn gyfnewid am hyn, mae ein penderfyniad drafft yn **caniatáu i Hafren Dyfrdwy gasglu £196 miliwn drwy filiau** gan gartrefi a busnesau dros y cyfnod 2025-30. Bydd hyn yn adennill cyfran o gost gwariant hanesyddol, yn ogystal â chyfran o'r gwariant a gynllunnir ar gyfer 2025-30.

Yn gyffredinol, bydd hyn yn **cynyddu cyfartaledd biliau cartrefi gan 32%** o 2024-25 i 2029-30 ar gyfer cwsmeriaid Hafren Dyfrdwy, cyn chwyddiant. Oherwydd i ni herio costau Hafren Dyfrdwy a'r cyflymder y mae refeniw yn cael ei adennill gan gwsmeriaid, bydd biliau cyfartalog yn is na'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol gan Hafren Dyfrdwy (gweler Ffigur 1.1).

Ffigur 1.1 Cyfartaledd biliau cartref y flwyddyn ar gyfer Hafren Dyfrdwy, 2024-25 a 2029-30, cyn chwyddiant



Ynghyd â rhanddeiliaid eraill, mae gan Hafren Dyfrdwy gyfle i gyflwyno sylwadau ar ein penderfyniadau drafft. Gallai hyn ein harwain i dderbyn newidiadau a fyddai'n effeithio ar filiau yn ein penderfyniad terfynol. Gallai fod newidiadau pellach hefyd gan reoleiddwyr eraill y bydd angen i gwmnïau eu hadlewyrchu.

Ein penderfyniad drafft ar gyfer Hafren Dyfrdwy

£226 miliwn

Cyfanswm y lwfans gwariant ar gyfer 2025-30

Mae ein penderfyniadau drafft yn cydnabod yr angen i bob cwmni wella perfformiad. Rydym yn ymrwymo Hafren Dyfrdwy i gyflawni **gwelliannau sylweddol ar berfformiad presennol ar gyfer ystod o fesurau** sy'n bwysig i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Mewn rhai meysydd, rydym wedi herio'r cwmni i gyflawni gwelliannau mwy ymestynnol nag a gynigiwyd. Mae'r ddogfen hon yn nodi dros yr adrannau nesaf rai o'r gwelliannau allweddol rydym yn eu disgwyl.

Rydym wedi bod yn craffu ar ac yn herio'r costau a gynigir gan y cwmni i gyflawni ei rwymedigaethau a'i ymrwymiadau. Dylai cwsmeriaid dalu am gostau sy'n effeithlon yn unig. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw cymharu cynigion y cwmni â chost gwaith a wnaed yn flaenorol a'r costau y mae cwmnïau eraill yn eu rhagweld ar gyfer gwaith tebyg. Gall hyn ddangos a fydd cwmni'n gallu darparu'r un peth am lai, heb i gwsmeriaid ddioddef gwasanaeth o ansawdd is.

Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy wario **cyfanswm o £226 miliwn** ar gyfer y cyfnod 2025-30. Mae hyn £36 miliwn yn is nag y gofynnodd Hafren Dyfrdwy amdano. Mae'n sylweddol uwch na lwfans Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2020-25, sef £210 miliwn. Mae'r lwfans uwch yn adlewyrchu newid sylweddol ym maint y Rhaglen Genedlaethol Amgylcheddol, gwariant ar gydbwysedd cyflenwad dŵr-galw am ddŵr, ansawdd dŵr, mwy o wytnwch a gwell gwasanaethau i gwsmeriaid.

Nid ymwneud â'r pum mlynedd nesaf yn unig y mae'r gwariant hwn. Rydym wedi ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau osod eu cynlluniau tymor agos yng nghyd-destun strategaeth gyflawni 25 mlynedd. Mae hyn yn rhoi hyder i ni fod y cwmni'n meddwl yn strategol am ei heriau yn y dyfodol, a bod ei gynllun busnes PR24 yn gam pwysig tuag at gyflawni canlyniadau hollbwysig yn y tymor hwy.

Mae cyfanswm ein lwfans yn cynnwys £26 miliwn y dylid ei wario ar asedau newydd a gwelliannau i wasanaethau a fydd o fudd i'r amgylchedd, gwytnwch a gwasanaeth cwsmeriaid. Mae hefyd yn cynnwys £207 miliwn i Hafren Dyfrdwy redeg y busnes o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys costau gweithredu a chynnal asedau'r cwmni.

Byddwn yn parhau i dal Hafren Dyfrdwy i gyfrif yn erbyn ei dargedau ar gyfer gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd ac yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo adrodd ar ei berfformiad bob blwyddyn. Os na fydd y cwmni'n cyflawni'r gwelliannau y mae wedi ymrwymo iddynt, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn biliau is i gwsmeriaid. Lle mae'n darparu lefel gwell o berfformiad bydd yn cael casglu mwy, i adlewyrchu'r buddion ychwanegol y mae wedi'u creu i gwsmeriaid. Bydd effaith yr addasiadau hyn yn golygu **na fydd cwsmeriaid yn talu** pan na chaiff prosiectau eu cyflawni a bydd yn lleihau enillion i fuddsoddwyr pan nad yw'r cwmni'n cyflawni.

Bydd ein penderfyniad drafft yn galluogi Hafren Dyfrdwy i ddenu'r benthyca a'r ecwiti sydd ei angen arno i gyflawni gwelliant mewn perfformiad, ond byddwn yn gwneud yn siŵr y **gall buddsoddwyr ond cael enillion uwch drwy berfformiad gwych gan y cwmni** mewn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd (gweler Enillion teg i fuddsoddwyr).

Gwella'r amgylchedd

Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy sicrhau canlyniadau llawer gwell i'n hamgylchedd naturiol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a chyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol: rydym am weld llai o lygredd, afonydd a dyfrffyrdd iachach, a'r cwmni i wneud ei ran i frwydro yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn adleisio Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol Llywodraeth Cymru ac awgrymiadau Fforwm PR24 Cymru. O'i gymharu â'r adolygiad prisiau diwethaf, rydym yn gosod ystod llawer ehangach o ymrwymiadau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â nifer o dargedau hirdymor a osodwyd gan lywodraethau, megis cyrraedd targedau allyriadau sero net interim a therfynol Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

Lleihau gollyngiadau gorlifoedd storm[2]	Lleihau ffosfforws[3]	Lleihau achosion o lygredd[4]	Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (cyfunedig)[5]
16-44%	**11%**	**38%**	**35%**

Hyd yn oed pan fydd wedi'i wanhau'n drwm gall dŵr gwastraff heb ei drin niweidio'r amgylchedd a chynyddu'r risg i iechyd pobl. Mae'n bwysig felly bod Hafren Dyfrdwy yn chwarae ei ran i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy **leihau'r defnydd o orlifoedd storm sy'n effeithio ar yr amgylchedd.** Bydd ein penderfyniad drafft yn cefnogi blaenoriaethu seiliedig ar niwed, gyda lwfansau gwariant ychwanegol wedi'u halinio â blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym yn cymell Hafren Dyfrdwy i fod yn fwy uchelgeisiol tra'n cydnabod yr awgrym gan Fforwm PR24 Cymru i ganolbwyntio ar leihau niwed amgylcheddol. Rydym yn cynnig targed gollyngiadau cyfartalog ar gyfer 2029-30 rhwng 20 a 30 o golledion fesul gorlif, sy'n gyfystyr â gostyngiad rhwng 16% a 44% ar lefelau 2021. Byddwn yn gofyn i Hafren Dyfrdwy gynnig rhif targed o ollyngiadau fesul gorlif o fewn yr ystod a darparu tystiolaeth mewn ymateb i'n penderfyniadau drafft i roi hyder y bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni. Rydym o'r farn bod y mesur perfformiad hwn yn adlewyrchu lefelau ymestynnol a chyraeddadwy ac yn mynd i'r afael â phryderon cwsmeriaid ynghylch sut mae asedau'n cael eu gweithredu a'u cynnal. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddogfen atodiad Canlyniadau ar gyfer Hafren Dyfrdwy.

Gwyddom fod lefelau gormodol o faetholion yn llygryddion, a all arwain at fygu gwelyau afonydd ac nid yw dros 60% o ardaloedd arbennig o afonydd cadwraeth yng Nghymru yn cyrraedd y lefelau ffosfforws dymunol pan gânt eu monitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae

[2] Gostyngiad rydym yn ei ddisgwyl o lefelau 2021-22 i 2029-30.
[3] Gostyngiad yn y ffosfforws a ollyngir o weithfeydd trin, o lefelau 2020 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30.
[4] Gostyngiadau o'r targed a osodwyd gennym ar gyfer 2024-25 i'r targed rydym wedi'i osod ar gyfer 2029-30.
[5] Gostyngiad o'r llinell sylfaen y gwnaethom ei gosod ar gyfer 2024-25 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30.

ein penderfyniad drafft hefyd yn cynnwys targed anariannol ar gyfer Hafren Dyfrdwy i **leihau swm y ffosfforws** sy'n mynd i mewn i afonydd o weithgareddau cwmnïau dŵr gan 11%.

Am y tro cyntaf, rydym yn gosod **targed sector cyfan i gwmnïau warchod a gwella bioamrywiaeth**. Bydd y mesur hwn yn monitro nifer ac ystod y rhywogaethau ac organebau byw mewn rhanbarthau cwmnïau dŵr. Po fwyaf cyfanheddol yw ecosystem, y mwyaf o fywyd y gall ei gynnal. Rydym yn herio Hafren Dyfrdwy drwy **osod targed mwy ymestynnol** na chynnig y cwmni i warchod a **gwella bioamrywiaeth** yn ei ranbarth, ac i wella cyrff dŵr drwy **leihau digwyddiadau llygredd.** Mae hyn oherwydd ein bod yn disgwyl i'r cwmni gyrraedd targedau hirdymor a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gynnal a gwella bioamrywiaeth, a thrwy hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, wrth arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Rydym hefyd yn disgwyl i'r cwmni chwarae ei ran i gyrraedd sero net erbyn 2050, dwy **leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol** gan 39% ar gyfer gwasanaethau dŵr a 25% ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff.

Diogelwch cronfeydd dŵr	Lleihau llygredd maetholion	Tanciau Septig
£4 filiwn	**£7 miliwn**	**£2 filiwn**

Er mwyn helpu i gyrraedd y targedau hyn, rydym yn cynnig lwfansau gwariant i Hafren Dyfrdwy gynnal rhaglen fuddsoddi sylweddol gwerth **£13 miliwn** i wella'r amgylchedd dros y cyfnod 2025-30. Mae'n cynnwys:

- **£4 miliwn i wella diogelwch cronfeydd dŵr.** Rydym yn derbyn bod angen buddsoddiad pellach ar Hafren Dyfrdwy i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer cronfeydd dŵr llai (rhwng 10,000 metr ciwbig a 25,000 metr ciwbig o gyfaint storio) sydd bellach yn dod o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru (ers 2016).
- **£7 miliwn i atal llygredd maetholion mewn afonydd.** Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy weithredu i leihau maetholion niweidiol sy'n mynd i mewn i afonydd, drwy dynnu llygryddion o ddŵr gwastraff wedi'i drin fel rhan o'i raglen amgylcheddol dŵr gwastraff.
- **£2 filiwn i wella ei safle trin tanc septig**. Mae gan Hafren Dyfrdwy un safle trin tanc septig ac mae ganddo gynlluniau ar gyfer darparu triniaeth eilaidd ar y safle i fynd i'r afael â'r ysgogwr a osodwyd gan Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

Trwy'r adolygiad prisiau rydym wedi herio effeithlonrwydd gwariant arfaethedig Hafren Dyfrdwy ac mae ein penderfyniadau drafft yn cynnwys yr holl allbynnau a chanlyniadau a gynigiwyd gan Hafren Dyfrdwy yn ei Raglen Amgylcheddol Genedlaethol.

Cynigiodd Hafren Dyfrdwy y bydd yn parhau i newid pibellau plwm ar draws ei rwydwaith i atal plwm rhag mynd i mewn i'r cyflenwad dŵr a gwella ansawdd dŵr yfed, er mwyn cyfrannu at yr ymgyrch tuag at Gymru ddi-blwm. Rydym yn caniatáu costau effeithlon a byddwn yn monitro cynnydd.

Diogelu ein cyflenwad dŵr

Gyda phwysau lleihau tynnu dŵr, newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a disgwyliadau uwch, mae'n bwysicach nag erioed i ddiogelu mynediad cwsmeriaid at gyflenwad dŵr dibynadwy. Bydd hyn yn gofyn i gwmnïau dŵr sicrhau cyflenwadau newydd lle bo angen a chwarae eu rhan i helpu i leihau'r defnydd o ddŵr.

Lleihau gollyngiadau	Lleihau defnydd dŵr cartrefi	Lleihau defnydd dŵr busnesau
10%	**2%**	**4% o gynnydd**

Mae ffigurau % yn cynrychioli gostyngiad o'r targedau a osodwyd gennym ar gyfer 2024-25 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30 ar sail flynyddol.

O dan ein penderfyniad drafft, mae gan Hafren Dyfrdwy sawl ymrwymiad a fydd yn helpu i ddiogelu cyflenwadau dŵr. Rydym yn disgwyl i'r cwmni **leihau gollyngiadau** gan 10%, **defnydd dŵr cartrefi** gan 2%.

Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy gadw cynnydd mewn defnydd dŵr gan fusnesau yn is na 4% yn y cyfnod 2025-30. Rydym yn teimlo bod hyn yn ymestynnol er ei fod yn cynrychioli cynnydd mewn defnydd gan fusnesau. Mae hyn oherwydd bod y targed arfaethedig yn rhoi ystyriaeth i weithgareddau effeithlonrwydd dŵr y cwmni a'r twf disgwyliedig mewn defnydd gan fusnesau dros gyfnod 2025-30.

Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy fuddsoddi £2 filiwn yn ei adnoddau dŵr dros 2025-30 o dan ein penderfyniad drafft. Dylai'r buddsoddiad hwn helpu i amddiffyn y rhanbarth rhag sychder a helpu cwsmeriaid i arbed dŵr. Mae hyn yn cynnwys:

- **£0.5 miliwn i wella rheolaeth y galw am ddŵr**. Mae Hafren Dyfrdwy yn cynnig cynnal ei warged o ddŵr trwy effeithlonrwydd dŵr a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth dŵr.
- **£1 miliwn ar fesuryddion**. Mae Hafren Dyfrdwy yn bwriadu newid 15,430 o fesuryddion am fesuryddion clyfar. Bydd hyn yn gwella ymgysylltiad â chwsmeriaid i helpu i leihau defnydd a helpu i ganfod gollyngiadau yn gynnar.
- **£0.6 miliwn i leihau gollyngiadau**. Nod Hafren Dyfrdwy yw lleihau gollyngiadau gan 50% erbyn 2050 ac mae'n bwriadu gwella'r gwaith o ganfod gollyngiadau ac atgyweirio/gwella'r rhwydwaith.

Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr ddarparu gwasanaeth rhagorol i'w cwsmeriaid. Gall hyd yn oed y goreuon yn y diwydiant dŵr wella gwasanaeth cwsmeriaid pan fyddwn yn edrych ar draws rhai sectorau eraill o'r economi.

Rydym felly am greu newid sylweddol yn safon y gwasanaeth cwsmeriaid y mae cwmnïau dŵr yn ei ddarparu, drwy'r adolygiad prisiau hwn a thrwy'r amod newydd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer y gellir ei orfodi a gyflwynwyd gennym i drwyddedau pob cwmni ym mis Chwefror 2024.[6]

Lleihau tarfiadau i gyflenwad dŵr[7]	Torri nifer y cysylltiadau a geir ynglŷn ag ansawdd dŵr[8]	Lleihau llifogydd o garthffosydd mewnol[9]	Gwella ansawdd dŵr yfed	Cyfraniadau cyfranddeiliaid i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu
88%	**7%**	**15%**	**£2 filiwn**	**£0.3 miliwn**

Rydym yn cynnig **gwelliannau ar draws y sector yn hyd y tarfiadau i gyflenwad dŵr cwsmeriaid.** Rydym yn herio Hafren Dyfrdwy i wella ei berfformiad cyfartalog drwy gyflawni gostyngiad o 88% ar ei berfformiad cyfartalog yn 2020-2023. Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy sicrhau bod ei gwsmeriaid yn mwynhau dŵr o ansawdd uchel ac un o'n dulliau o fesur hyn yw drwy nifer y cysylltiadau y mae'r cwmni'n eu cael gan gwsmeriaid sy'n ymwneud â blas, arogl ac ymddangosiad y dŵr y mae'n ei ddarparu. Rydym am iddo **dorri nifer y cysylltiadau y mae'n ei gael gan gwsmeriaid ynglŷn ag ansawdd dŵr** gan 7%.

Nid ydym wedi derbyn cais addasu costau i adnewyddu prif bibell gylch Wrecsam. Mae'n ymddangos bod y brif bibell gylch mewn cyflwr da. Ni ddarparodd y cwmni ddigon o dystiolaeth i ddangos pam y bydd newid y brif bibell, yn hytrach na datrysiadau amgen megis gwell ymateb gweithredol a mwy o fonitro, yn arwain at welliant yn ei berfformiad yn ymwneud â tharfu ar gyflenwad.

O ran dŵr gwastraff, gwyddom mai llifogydd o garthffosydd yw un o'r methiannau gwaethaf y gall cwsmeriaid ei brofi – felly rydym yn disgwyl gostyngiadau parhaus a sylweddol. Mae hyn yn cynnwys **targed sector cyfan ar gyfer llifogydd carthffosydd mewnol**, sy'n arwain at ostyngiad gan 15% i'r cwmni o gymharu â pherfformiad cyfartalog yn 2020-2030. Rydym

[6] Ofwat 'Amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer - Ofwat' Chwefror 2024
[7] Mae gostyngiad o berfformiad cyfartalog y cwmni yn 2020-23 i'r targed rydym wedi'i osod ar gyfer 2029-30.
[8] Mae gostyngiadau o'n rhagolwg o berfformiad cwmni yn 2024-25 i'r targed rydym wedi'i osod ar gyfer 2029-30.
[9] Gostyngiad o berfformiad cyfartalog y cwmni yn 2020-23 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30.

hefyd yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy leihau llifogydd carthffosydd allanol gan 14%, o gymharu â'i darged ar gyfer 2024-25.

Rydym yn disgwyl i Hafren Dyfrdwy gyflawni'r rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn gan ddefnyddio ei lwfans gwariant o ddydd i ddydd ac unrhyw wobrau y bydd yn eu derbyn am berfformiad sy'n mynd y tu hwnt i'r lefelau a bennir gennym. Fodd bynnag, mae ein penderfyniad drafft yn caniatáu **£2 filiwn ychwanegol i'r cwmni i wella ansawdd dŵr yfed.**

Yn ystod 2025-30, byddwn hefyd yn cynyddu cymhellion ariannol i Hafren Dyfrdwy i sicrhau newid sylweddol mewn gwasanaeth cwsmeriaid, trwy ein **mesurau profiad cwsmeriaid**. Mae'r rhain yn graddio cwmnïau dŵr yn seiliedig ar sut maent yn perfformio mewn arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid - gan gynnwys sut maent yn cymharu â chwmnïau mewn rhannau eraill o'r economi.

Mae gan gwmnïau dŵr drefniadau ar waith i gefnogi cwsmeriaid a allai fod yn cael trafferth talu eu biliau. Gelwir hyn yn dariff cymdeithasol, ac mae'n helpu i leihau'r bil ar gyfer y cwsmeriaid dan sylw. Mae Hafren Dyfrdwy yn bwriadu cynyddu darpariaeth tariff cymdeithasol o 3% o aelwydydd yn 2024-25 i 6% yn 2029-30. Bydd cyfranddalwyr Hafren Dyfrdwy yn cyfrannu £0.3 miliwn tuag at dariffau cymdeithasol a £0.02 miliwn tuag at daliadau cyfatebol i gwsmeriaid sy'n ad-dalu dyledion. Rydym yn cynnig dal Hafren Dyfrdwy i gyfrif drwy ein gwaith monitro ac adrodd, a thrwy'r amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Cynnal iechyd a gwytnwch asedau

Mae'n hollbwysig bod cwmnïau dŵr yn cynnal ac yn gwella iechyd eu hasedau; sef eu pibellau, carthffosydd, gweithfeydd trin a seilwaith arall. Mae hyn yn cynnwys eu rheoli'n gyfrifol o ddydd i ddydd, yn ogystal â pharatoi ar gyfer a rheoli effaith digwyddiadau megis tywydd garw ac ymosodiadau seiber. Mae gennym hefyd ddisgwyliad bod cwmnïau'n cynllunio ar gyfer twf yn y galw yn y dyfodol oherwydd ffactorau megis cynnydd yn y boblogaeth neu ddatblygiad busnesau newydd neu fusnesau'n ehangu.

Lleihau'r angen i atgyweirio pibellau sy'n byrstio ar y prif gyflenwad	Lleihau nifer y carthffosydd sy'n chwalu	Lleihau toriadau heb eu cynllunio mewn gweithfeydd trin	Cynyddu gwytnwch seilwaith
6%	**13%**	**Cynnal perfformiad**	**£5 miliwn**

Mae ffigurau % yn cynrychioli gostyngiad o'r targedau a osodwyd gennym ar gyfer 2024-25 i'n targed arfaethedig ar gyfer 2029-30.

O dan ein penderfyniad drafft, bydd disgwyl i Hafren Dyfrdwy **leihau'r angen i atgyweirio pibellau sy'n byrstio ar ei brif gyflenwad** gan 6%. Mae'r targed hwn yn cymell y cwmni i fod yn rhagweithiol, gan gynnal a gwella ei rwydwaith dŵr yn gyfrifol, ac felly lleihau'r angen am atgyweiriadau adweithiol. Mae gofyn i Hafren Dyfrdwy hefyd **leihau nifer y carthffosydd sy'n chwalu** gan 13% ac mae wedi ymrwymo i leihau lefel y **toriadau annisgwyl yn ei weithfeydd trin dŵr**, fel y gall gynhyrchu cymaint â phosibl o ddŵr yfed a chynnal cyflenwadau i gwsmeriaid.

Disgwylir i Hafren Dyfrdwy **fuddsoddi £5 miliwn i gynyddu gwytnwch ei asedau.** Bydd y buddsoddiad hwn yn amddiffyn rhag effaith methiannau pŵer, ac amddiffyn ei safleoedd rhag llifogydd eithafol. Disgwylir i £1 miliwn arall gael ei ddefnyddio i wella diogelwch, gan gynnwys seiberddiogelwch, ac i fodloni gofynion statudol newydd.[10]

[10] Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) 'Cyfarwyddyd Mesurau Diogelw a Argyfwng 2022'.

Enillion teg i fuddsoddwyr

3.72%
Enillion a ganiateir ar gyfalaf

Mae buddsoddi mewn asedau oes hir o fudd i gwsmeriaid a'r amgylchedd yn yr hirdymor. Felly, dylai pob cenhedlaeth o gwsmeriaid sy'n elwa gan y buddsoddiad wneud cyfraniad teg drwy eu biliau at y costau effeithlon. Er mwyn gwasgaru'r costau dros yr hirdymor, rhaid i'r buddsoddiadau hyn gael eu hariannu gan fuddsoddwyr dyled ac ecwiti. Mae angen i'r sector barhau i fod yn atyniadol i fuddsoddwyr os yw cwmnïau am godi cyllid ar gost effeithlon, a rhaid i fuddsoddwyr ennill elw sy'n adlewyrchu risgiau eu buddsoddiad. Dim ond pan fydd cwmni'n perfformio'n wych y dylai cyfranddalwyr ddisgwyl cael enillion uwch, a bydd enillion cyfranddalwyr yn is pan nad yw perfformiad cwmni yn cyrraedd y safon.

Rydym yn gosod **enillion a ganiateir ar gyfalaf** fel rhan o'n lwfansau refeniw. Rhaid i hyn roi enillion teg i fuddsoddwyr am y risg y maent yn ei hwynebu, fel y gall cwmnïau barhau i godi'r cyllid sydd ei angen. Mae gosod hyn ar y lefel gywir yn bwysig. Os yw'n rhy uchel, bydd cwsmeriaid yn talu mwy nag sy'n deg ac os yw'n rhy isel, efallai na fydd buddsoddwyr yn fodlon darparu cyllid ychwanegol i ariannu'r buddsoddiad sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae ein penderfyniadau drafft yn gosod yr enillion a ganiateir ar gyfalaf ar gyfer y busnes cyfan yn **3.72%.** Gan adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad, mae hyn yn uwch na'n barn gynnar o'r enillion a ganiateir ar gyfalaf y gwnaethom ofyn i gwmnïau ei ddefnyddio ar gyfer eu cynlluniau busnes 2025-30.

Mae ein penderfyniadau drafft hefyd yn pennu **dros ba gyfnod o amser y mae cwsmeriaid yn talu am y costau rydym yn caniatáu i Hafren Dyfrdwy eu hadennill gan ei gwsmeriaid**. Ein nod yw bod costau buddsoddi yn cael eu rhannu'n deg rhwng y cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn fras â'r cyfnod y mae cwsmeriaid yn elwa gan y buddsoddiad hwnnw. Os caiff y costau eu hadennill yn rhy gyflym, byddai cwsmeriaid presennol yn talu mwy na'u cyfran deg. Os yw'n rhy araf, efallai y bydd cwmnïau'n ei chael hi'n anodd ariannu eu gweithgareddau nawr, a gall cyfran y costau a delir gan genedlaethau'r dyfodol fod yn uwch nag y dylai fod.

Cynyddodd Hafren Dyfrdwy pa mor gyflym y byddai'n adennill costau gan gwsmeriaid yn ei gynllun busnes er mwyn darparu digon o refeniw i allu ariannu ei weithrediadau. Mae'r enillion uwch a ganiateir yn darparu rhywfaint o'r refeniw ychwanegol hwn ac, felly, rydym wedi ymyrryd i **wrthdroi rhan o addasiad Hafren Dyfrdwy** yn ein penderfyniad drafft. Mae hyn yn golygu na fydd cwsmeriaid presennol yn talu mwy na'r hyn sydd ei angen i'r cwmni ddarparu'r gwasanaethau yn ystod 2025-30, a bydd y cwmni'n adennill mwy o gostau gan gwsmeriaid yn y dyfodol pan fydd gwasanaethau gwell wedi'u darparu.

Bydd ein penderfyniadau drafft yn caniatáu i gwmnïau effeithlon godi'r lefelau dyled ac ecwiti fydd eu hangen i gyflawni'r gofynion buddsoddi a bodloni eu rhwymedigaethau yn 2025-30 a thu hwnt. Fodd bynnag, mae gan bob cwmni dŵr rywfaint o ddisgresiwn i wneud

penderfyniadau am ei drefniadau ariannu a strwythur cyfalaf a rhaid iddo gynnal strwythur sy'n wydn yn ariannol os yw am allu codi cyfalaf i gyflawni'r buddsoddiadau angenrheidiol.

Rhoddodd y cwmni sicrwydd gan y Bwrdd o'i wytnwch ariannol dros gyfnod 2025-30 o dan ei strwythur ariannol gwirioneddol. Mae cynllun y cwmni yn targedu statws credyd o Baa1/BBB+, sy'n gyson â'r targed a osodwyd yn ein penderfyniad. Rydym yn asesu bod Hafren Dyfrdwy wedi darparu digon o dystiolaeth yn ei gynllun i roi hyder y bydd yn cynnal ei wytnwch ariannol yn ystod 2025-30 a thu hwnt.

Bydd Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am sicrhau bod ei bolisi difidend a'r taliadau difidend a wneir yn 2025-30 yn cael eu gwneud yn unol â'i drwydded. Mae trwydded Hafren Dyfrdwy yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cwmni ystyried ei berfformiad ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd wrth dalu neu ddatgan difidendau. Rydym wedi ystyried polisi difidend y cwmni ar gyfer 2025-30 ac rydym wedi asesu nad yw'n cyd-fynd â'n disgwyliadau. Yn gyffredinol, nid oedd yn mynd i'r afael â llawer o'r ffactorau allweddol y byddem yn disgwyl iddo eu gwneud fel y nodir yn ein canllawiau difidend ac nid yw'n cynnwys digon o fanylion mewn perthynas â sawl agwedd allweddol. Rydym yn disgwyl i'r cwmni fynd i'r afael â'n hadborth a nodir yn ein hasesiad ansawdd ac uchelgais, yn ei ymateb i'n penderfyniad drafft.

Nid yw'r polisi ar gyfer tâl swyddogion gweithredol cysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2025-30 sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun busnes Hafren Dyfrdwy yn bodloni'r disgwyliadau sylfaenol a nodir yn ein methodoleg derfynol. Mae hyn oherwydd mai cyfran fach iawn o dâl swyddogion gweithredol cysylltiedig â pherfformiad sy'n gysylltiedig ag ymestyn y ddarpariaeth i gwsmeriaid. Rydym yn disgwyl i'r cwmni fynd i'r afael â'r mater hwn cyn i'r polisi gael ei roi ar waith o 2025 ymlaen.

Mae cwmnïau dŵr yn atebol am eu gweithredoedd, ac **rydym yn adolygu pob taliad bonws i gyfarwyddwyr gweithredol bob blwyddyn.** Os na fydd penderfyniadau Hafren Dyfrdwy ar dâl swyddogion gweithredol seiliedig ar berfformiad yn bodloni ein disgwyliadau ar ystod eang o feini prawf, gan gynnwys aliniad â pherfformiad amgylcheddol a chyflawni ar gyfer cwsmeriaid, byddwn yn camu i mewn i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ysgwyddo'r bil.[11]

[11] Protecting-customer-interest-on-performance-related-executive-pay---recovery-mechanism-guidance.pdf (ofwat.gov.uk), Mehefin 2023, Ofwat

Ein hasesiad o ansawdd ac uchelgais cynllun busnes Hafren Dyfrdwy

Rhagorol	Safonol	Diffyg uchelgais	Annigonol
Categoreiddiad y cynllun busnes			

O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector, mae angen i gwmnïau ymdrechu i drawsnewid eu perfformiad. Dyna pam y gwnaethom gymell pob cwmni i roi cynllun uchelgeisiol ac o ansawdd da i ni a oedd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau hyn, y lefelau perfformiad y bydd yn eu cyflawni a'r costau cysylltiedig. Rydym yn asesu'r cynlluniau hyn yn erbyn ein disgwyliadau sylfaenol ac yn erbyn cynlluniau cwmnïau eraill i nodi'r rhai sy'n dangos lefelau uchelgais sy'n helpu i wthio'r sector cyfan yn ei flaen. Rydym hefyd yn nodi lle nad yw cynllun cwmni wedi'i baratoi i'r lefel ansawdd sy'n ofynnol gennym.

Wrth asesu ansawdd ac uchelgais y cynllun busnes 2025-30 a gyflwynodd Hafren Dyfrdwy i ni ym mis Hydref 2023, **yn gyffredinol, rydym wedi categoreiddio'r cynllun fel un safonol.** Mae hyn oherwydd ein bod yn ystyried ei fod yn cynnwys lefel resymol o uchelgais yn gyffredinol. Bydd Hafren Dyfrdwy yn derbyn gwobr sy'n gyfwerth â £0.2 miliwn.

Ofwat (The Water Services Regulation Authority) is a non-ministerial government department. We regulate the water sector in England and Wales.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Phone: 0121 644 7500

© Crown copyright 2024

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Where we have identified any third party copyright information, you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This document is also available from our website at www.ofwat.gov.uk.

Any enquiries regarding this publication should be sent to mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL